

## **Arolygiad Dilynol Iechyd Meddwl (Dirybudd)**

**Phoenix House:  
Phoenix House a'r Hafan**

Dyddiad Arolygu: 20 a 21 Mawrth  
2017

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg .....	6
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	7
4. Crynodeb.....	8
5. Canfyddiadau .....	10
Safonau Craidd .....	10
Cymhwysiad y Ddeddf Iechyd Meddwl .....	17
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl .....	17
6. Y Camau Nesaf .....	18
Atodiad A.....	19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl Ysbyty Phoenix House ar 20 ac 21 Mawrth 2017.

Roedd ein tîm arolygu'n cynnwys un rheolwr arolygu AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan aelodau staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael cymorth i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael hawl ac anogaeth i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad llawn i amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i gyrraedd eu llawn potensial

- Yn cael mynediad i eiriolwyr annibynnol ac yn cael cymorth i fynegi pryderon a chwynion
- Yn cael cymorth i gynnal cysylltiadau â theulu a ffrindiau pan fônt yn dymuno gwneud hynny

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gynnal yr arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau ag aelodau staff a rheolwyr
- Cyfweiliadau ag aelodau staff uwch gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio'r dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar y polisiau a'r gweithdrefnau allweddol
- Edrych ar yr amgylchedd
- Archwilio ffeiliau'r staff gan gynnwys cofnodion hyfforddi
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y ddogfennaeth i gleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried goblygiadau Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>
- Edrych ar gofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion a phryderon a chofnodion atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Goruchwyllo'r modd y caiff cyffuriau eu storio, eu rhoi, eu harchebu a'u cofnodi, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a llyeg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig ciplun o safon y gofal y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

---

<sup>1</sup> Mae'r Mesur yn ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymysg materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesiad, cynllunio gofal a chydlyniant o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Ysbyty Phoenix House am y tro cyntaf ar 21 Awst 2007 a Lighthouse Healthcare Limited sy'n berchen arno. Mae'r amodau cofrestru presennol yn galluogi'r ysbyty i roi lle i 23 o oedolion rhwng 18 a 65 oed sydd angen gofal a thriniaeth at ddibenion adfer ar ôl anhwylder meddwl ac a all fod yn cael eu cadw dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae Ysbyty Phoenix House yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl i 20 o gleifion ar hyn o bryd:

- Mae uned Phoenix House yn darparu gofal i hyd at 14 o gleifion gwrywaidd
- Mae'r Hafan yn darparu gofal i hyd at chwe chlaf benywaidd

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys seiciatryddion ymgynghorol, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethaol, ac amrywiaeth o nyrsys a staff cymorth gofal iechyd cymwysedig.

Yn ystod ein arolygiad, roedd naw claf gwrywaidd a chwe chlaf benywaidd yn yr ysbyty. Sylwyd bod lefelau staff yn ddigonol er mwyn sicrhau gofal a goruchwyliaeth ddiogel i'r cleifion.

Arolygwyd y gwasanaeth hwn ddiwethaf gennym ym mis Tachwedd 2016 a chanfuwyd bod angen gwelliannau gan fod y rheoliadau'n cael eu torri. Anfonodd y sefydliad gynllun gweithredu at AGIC yn egluro'r ffordd y byddai'n sicrhau ei fod wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol mewn perthynas â'r achosion hyn o dorri rheoliadau. Edrychwyd a oedd y camau hyn wedi eu cwblhau yn yr arolygiad hwn. Gwelsom fod yr ysbyty wedi gwneud gwelliannau i'r rhan fwyaf o'r achosion.

## 4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad yn Phoenix House yn uned y gwrywod a'r benywod yn yr ysbyty.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd amgylchedd yr ysbyty yn addas i'r cleifion ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd y tîm gofal yn ymroddedig a pharchus ac yn canolbwyntio ar ddarparu gofal urddasol.
- Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i gleifion ar y wardiau ac yn y gymuned.
- Roedd cofnodion Cynllun Gofal a Thriniaeth o safon dda.

Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arferion recriwtio staff yn rymus ac yn cadw at Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.
- Dylid sicrhau bod cleifion sydd angen electrocardiograff fel rhan o fonitro eu hiechyd corfforol yn cael un yn ôl yr angen.
- Dylid sicrhau bod yr aelodau staff i gyd yn cael arfarniad blynyddol a sesiynau goruchwyllo rheolaidd.
- Dylid sicrhau bod gwybodaeth am berthynas agosaf ar gael i bob claf.
- Dylid sicrhau bod cynlluniau gofal angenrheidiol pob claf ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Canfuwyd nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- ***Nid oedd yr arferion recriwtio'n rhai grymus ac roedd potensial eu bod yn rhoi'r cleifion mewn perygl sylweddol.***

Mae'r materion hyn yn faterion difrifol ac, o ganlyniad, cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi derbyn digon o sicrwydd ynglŷn â'r camau a gymerwyd i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol.



Canfuwyd yn ystod yr arolygiad fod honiad wedi ei wneud yn erbyn aelodau staff, a oedd wedi arwain at atal aelodau o staff o'u gwaith dros dro tra oedd ymchwiliad yn cael ei gynnal gan dîm diogelu Awdurdod Lleol Powys. Nid oedd modd i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau ar y diwrnod a oedd hysbysiad wedi ei gyflwyno ac, o ganlyniad, cafodd hysbysiad o sicrwydd ar unwaith ei gyflwyno. Fodd bynnag, ar ôl yr arolygiad, eglurwyd bod hyn wedi ei gwblhau. Cynghorwyd y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu'r holl gwynion, pryderon a honiadau er mwyn sicrhau bod hysbysiadau priodol wedi eu cyflwyno i AGIC.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Yn ystod ein hymweliad â'r ysbyty, gwelwyd bod unedau'r Hafan a Phoenix House yn lân, yn dwt a thaclus. Nid oedd llanast ac roedd pob man wedi ei gynnal i safon dda iawn. Roedd yr addurniadau yn yr unedau ac yn ystafelloedd y cleifion eu hunain yn ddymunol ac yn creu naws gartrefol. Roedd y lolfeydd cymunedol yn ysgafn a golau. Roedd ystafell chwaraeon/chwarae ar gael yn uned y dynion a oedd yn cynnwys bwrdd pŵl ac offer ffitrwydd. Roedd y seddi o safon dda drwy'r ysbyty i gyd.

Roedd y manau i gyd yn ddiogel ac roedd mynediad i rai manau penodol wedi ei gyfyngu. Roedd yr aelodau staff yn gwisgo larymau er mwyn galw am gymorth pan fyddai angen a bathodynau mynediad er mwyn iddynt allu mynd i mewn i'r rhannau o'r ysbyty oedd wedi eu cloi.

Roedd ystafelloedd cyfarfod ar gael yn yr ysbyty. Roedd un wedi ei lleoli ger y dderbynfa ac roedd dwy fynedfa iddi. Roedd hyn yn galluogi'r ymwelwyr i fynd i'r ystafell heb fynd i'r rhan o'r ysbyty lle'r oedd y wardiau. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fyddai plant yn ymweld â'r ysbyty.

Roedd yr ystafell therapi galwedigaethol yn arddangos gwaith y cleifion, a oedd yn ysgogol ac yn ddiddorol. Roedd gwaith celf wedi ei osod ar y waliau ac yn amlygu ymdrechion sylweddol y cleifion. Roedd y rhan hon yn lleoliad therapiwtig i'r cleifion gael mynegi eu sgiliau creadigol ac mae'n eu galluogi i fynegi meddyliau a theimladau di-eiriau.

Roedd ceginau yn y ddwy uned, y gallai'r cleifion fynd iddynt fel rhan o'u gwellhad a'u hadsefydliad os asesir fod hynny'n briodol. Roedd mynediad i'r manau hyn wedi ei reoli gan gloeon cod allwedd, a roddwyd i gleifion a oedd wedi cael asesiad risg.

Roedd ystafelloedd y cleifion wedi eu haddurno i safon dda. Roedd modd i'r cleifion bersonoli eu hystafelloedd. Roedd cyfleusterau en suite ym mhob un o ystafelloedd y cleifion ac roedd dwy ystafell ymolchi er mwyn i'r cleifion gael bath.

Canfuwyd yn ein harolygiad blaenorol nad oedd cloc yn dangos yr amser cywir, bod drws wedi torri, a bod rhywfaint o ddodrefn wedi torri. Yn ystod yr ymweliad, roedd y clociau i gyd yn gweithio ac yn dangos yr amser cywir, ac roedd y drws a oedd wedi torri wedi ei adnewyddu a bellach yn ddiogel. Roedd yr holl osodiadau a'r ffitiadau o safon dda ac yn cael eu cynnal yn dda.

Roedd y broses o gael gwared â gwastraff clinigol a domestig yn dda. Gwelsom yr aelodau staff yn cael gwared â gwastraff clinigol yn briodol. Roedd y storfa lleiniau, didoliad lleiniau yn yr ystafelloedd londri, a'r broses er mwyn cael gwared ag offerynnau miniog o safon dda a diogel.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Yn ystod ein hymweliad arolygu, gwelsom fod aelodau staff yn cyfathrebu gyda'r cleifion mewn modd digynnwrf, cyfeillgar ac urddasol. Roedd yr aelodau staff yn defnyddio dewis enw'r cleifion a gwelwyd trafodaethau therapiwtig da rhyngddynt. Roedd y drysau i ystafelloedd y cleifion i gyd ar gau, a oedd yn caniatáu i'r cleifion gael preifatrwydd yn eu hystafelloedd eu hunain.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn a nodwyd fod yr aelodau staff yn garedig, yn ystyriol, ac yn gwrandao ar eu hanghenion a'u gofynion.

Canfuwyd yn ein harolygiad blaenorol nad oedd y darparwr cofrestredig wedi cwblhau archwiliad pwynt clymu cynhwysfawr o Phoenix House. Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom weld archwiliad pwynt clymu cynhwysfawr eto. Fodd bynnag, ar ôl yr arolygiad, cyflwynodd y darparwr cofrestredig archwiliad pwynt clymu wedi'i gwblhau i AGIC ar 30 Mawrth 2017. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

Canfuwyd hefyd nad oedd y darparwr cofrestredig wedi cwblhau asesiadau risg clymu ar gyfer cleifion unigol yn unol ag archwiliad pwynt clymu'r darparwr cofrestredig. Eto, yn ystod ein hymweliad, nid oedd modd inni weld asesiadau risg clymu cleifion unigol gan nad oeddent wedi eu cwblhau. Fodd bynnag, cyflwynodd y darparwr dystiolaeth i AGIC ar 30 Mawrth 2017 yn nodi bod asesiadau clymu cleifion unigol wedi eu cwblhau. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr asesiadau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd pa bryd bynnag y daw cleifion newydd i'r ysbyty, neu os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd i amgylchedd yr ysbyty.

Yn ystod ein hymweliad arolygu, canfuwyd nad oedd cynnydd ffurfiol wedi digwydd mewn perthynas â rheoli cwynion. Mae hyn am nad oedd gwybodaeth ar gael mewn perthynas â chanlyniad ffurfiol un gŵyn benodol a adolygwyd. Canfuwyd hefyd bod gwybodaeth ynglŷn â chwynion yn cael ei storio mewn amryfal leoedd, a oedd yn ei gwneud yn anodd gwerthuso'r system rheoli cwynion ar waith. Canfuwyd y gofyniad hwn yn ein harolygiad ym mis Tachwedd 2016. Cysylltodd y darparwr cofrestredig ag AGIC ar 30 Mawrth 2017 i roi gwybod y byddai'r polisi a'r weithdrefn gwynion yn cael eu hadolygu a bod cronfa ddata newydd wedi ei sefydlu a fyddai'n cofnodi'r holl wybodaeth mewn un man dynodedig. Rhoddwyd tystiolaeth inni o'r gronfa

ddata. Dylai'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC pan fo'r gwerthusiad ffurfiol o'r polisi a'r weithdrefn gwynion wedi ei gwblhau a rhoi gwybod pa newidiadau sydd wedi digwydd a sut y bydd y newidiadau hyn yn gwella'r ffordd y rheolir cwynion yn y dyfodol.

### **Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaethau**

Edrychwyd ar yr ystafelloedd clinigol fel rhan o'r arolygiad a chanfuwyd bod yr ystafelloedd yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Roedd polisiâu a gweithdrefnau meddyginiaeth ar gael yn yr ystafelloedd.

Canfuwyd yn ein harolygiad blaenorol bod angen gwelliannau sylweddol mewn perthynas â rheoli meddyginiaeth. Canfuwyd bryd hynny nad oedd yr aelodau staff yn llenwi'r rhestr wirio feddygol ddyddiol, sy'n ofynnol yn ôl polisi'r darparwr cofrestredig. Edrychwyd ar ddogfennaeth y rhestr wirio feddygol ddyddiol a chanfuwyd bod gwelliannau sylweddol wedi digwydd ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd gwiriadau meddyginiaeth dyddiol a gwirio tymheredd yr oergell wedi digwydd ar rai dyddiau, fel sy'n ofynnol gan bolisi'r darparwr cofrestredig. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y meysydd ymarfer hyn yn cael eu monitro'n barhaus a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau.

Ni chraffwyd ar y llyfrau cyffuriau a reolir yn ystod yr ymweliad hwn, am i ni gael gwybod nad oedd unrhyw gleifion yn cael meddyginiaeth o'r fath. Yn y dyfodol, os derbynnir cleifion sy'n cymryd cyffuriau a reolir, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cadw'n llym at ei bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun a bod aelodau staff cymwysedig yn cadw at [Safonau rheoli meddyginiaethau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth](#).

Gwelwyd cofnodion gweinyddu meddyginiaeth (MAR) yn ystod yr arolygiad hwn a nodwyd na chanfuwyd unrhyw abnormaledd a bod yr aelodau staff yn llenwi'r cofnodion hyn mewn modd cynhwysfawr a systematig. Gwelsom hefyd gofnodion archwiliadau siartiau'r cofnodion gweinyddu meddyginiaeth, a oedd yn cael eu cynnal gan y darparwr yn rheolaidd.

Canfuwyd yn ein harolygiad blaenorol bod nyrs gofrestrredig yn rhoi meddyginiaeth i gleifion ond nad oedd yn gwybod beth oedd y feddyginiaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr cofrestredig wedi cychwyn cynnal gwiriadau cymhwysedd meddyginiaeth i nyrsys cofrestredig. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom nad oedd dau o'r nyrsys cymwysedig wedi cael asesiad cymhwysedd. Fodd bynnag, cawsom wybod ar 30 Mawrth 2017 gan y darparwr cofrestredig fod pob nyrs gymwysedig wedi cael yr asesiad hwn, gan gynnwys nyrsys asiantaeth.

Roedd canllawiau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gael yn rhydd yn yr ysbyty, i gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol. Cyfrifoldeb y gweithiwr iechyd proffesiynol ei hun yw sicrhau bod ei arferion yn gyfredol a'i fod yn dilyn canllawiau ar gyfer arferion gorau, yn lleol a chenedlaethol.

Roedd y gwaith o fonitro iechyd corfforol wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol am fod pwysedd gwaed, pwls, anadliad a thymheredd pob claf a oedd yn cymryd clozapine yn cael eu monitro bob dydd. Roedd yr aelodau staff bellach yn defnyddio'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol er mwyn monitro cleifion ac adnabod unrhyw newidiadau yn eu hiechyd corfforol. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw monitro cleifion mor agos bob dydd yn angenrheidiol, ac eithrio wrth gychwyn ar clozapine. Rhoddwyd copi o bolisi cychwyn ar clozapine i AGIC ar 30 Mawrth 2017. Dylai'r darparwr cofrestredig ddatblygu polisi rheoli clozapine cyffredinol i gleifion sy'n cymryd y feddyginiaeth hon yn y tymor hir. Byddai polisi rheoli clozapine cyffredinol fod yn ganllaw i ba wiriadau y dylid eu cynnal yn ystod pob rhan o'r driniaeth clozapine ac nid yn ystod y cyfnod cychwynol yn unig.

### **Gofyniad**

#### **Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddatblygu polisi rheoli clozapine cynhwysfawr.**

Canfuwyd nad oedd rhai cleifion wedi derbyn gwiriad iechyd blynyddol gan feddyg teulu. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn derbyn gwiriad iechyd corfforol gan ymarferydd meddygol a bod gwybodaeth ar gynnwys a chanfyddiadau'r ymgynghoriad ar gael.

### **Gofyniad**

#### **Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion i gyd yn cael ymgynghoriad iechyd corfforol blynyddol gan ymarferydd meddygol a bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad.**

Canfuwyd hefyd yn ystod yr arolygiad hwn bod gwaith monitro cleifion gyda pheiriant electrocardiograff (ECG) wedi dirywio. Roedd hyn am nad oedd yr un o'r aelodau staff yn gymwys yn y gwaith o berfformio prawf electrocardiograff. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion i gyd yn cael prawf electrocardiograff mewn modd amserol ac yn unol â'u hanghenion iechyd.

### **Gofyniad**

#### **Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gleifion sydd angen electrocardiograff yn cael y prawf mewn modd amserol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig nodi'r ffordd y bydd y maes gwaith hwn yn cael**

## **syllw er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn cael eu monitro'n foddhaol.**

Yn ystod ein harolygiad, canfuwyd fod un claf wedi bod ag angen iechyd yn ymwneud ag ymataliad ond nid oedd cynllun gofal ar gael. Hysbyswyd y darparwr cofrestredig bod angen asesu anghenion iechyd corfforol y cleifion i gyd a bod angen datblygu cynlluniau gofal priodol er mwyn bodloni'r anghenion hyn.

### **Gofyniad**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu ar gyfer pob claf sydd â gofyniad iechyd.**

### **Y tîm amlddisgyblaethol**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom niferoedd digonol o staff yn darparu gofal a chymorth i gleifion. Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig bod y lefelau staffio'n gyson a bod y defnydd o staff asiantaeth wedi bod yn gyson ers ein harolygiad blaenorol. Cawsom wybod bod 4.5 swydd wag cyfwerth ag amser llawn ar gyfer nyrsys cymwysedig a 6.3 swydd wag cyfwerth ag amser llawn ar gyfer staff cymorth, a oedd ychydig yn uwch nag yr oedd yn ystod ein harolygiad diwethaf. Cawsom wybod bod lefelau staffio'n dibynnu ar nifer y cleifion yn yr ysbyty. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gofyniad staffio hwn yn broses ddynamig, gan fod yn rhaid arfarnu aciwtedd ac anghenion y cleifion mewn modd cynhwysfawr ac nid nifer y cleifion sydd yn yr ysbyty'n unig.

Cynhaliwyd cyfarfodydd amlddisgyblaetnol yn rheolaidd er mwyn arolygu gofal, triniaeth ac adsefydlu cleifion. Roedd y tîm clinigol cyfan yn rhan o'r cyfarfodydd, yn ogystal â'r claf a/neu aelod o deulu neu gynrychiolydd y claf. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfodydd yn cynnwys lefelau arsylwi, meddyginiaeth a gweithgareddau'r claf.

Gwelwyd hyfforddiant staff yn cael ei gynnal yn ystod ein hymweliad. Roedd y rheolwr hyfforddi'n frwdfrydig ac yn angerddol ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad a'r ffordd yr oedd yr hyfforddiant yn cael ei roi ar waith, er mwyn rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i gleifion.

Yn ystod ein hymweliad, canfuwyd bod aelod newydd o staff yn cael sesiwn ymsefydlu yn yr ysbyty. Wrth graffu ar yr arferion recriwtio, canfuwyd nad oedd gan yr aelod newydd o staff wiriadau datgelu a gwahardd na geirdaon. Roedd hyn yn peri risg bosibl sylweddol i'r cleifion. Trafodwyd hyn yn syth â'r rheolwr cofrestredig a gofynnwyd am sicrwydd ar unwaith gan AGIC.

## **Gofyniad**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr arferion recriwtio staff yn rhai grymus ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.**

Cawsom ein hysbysu'n ffurfiol gan y darparwr cofrestredig na fyddai unrhyw aelodau newydd o staff yn cael gwneud unrhyw sifftiau cysgodi sefydlu hyd nes bod pob gwiriad recriwtio wedi ei gwblhau'n foddhaol.

Edrychwyd ar gofnodion aelodau staff asiantaeth a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan y darparwr. Roedd y cofnodion yn glir ac yn berthnasol i'r aelodau staff asiantaeth yr oedd y darparwr yn eu defnyddio ar yr adeg honno'n unig.

## **Hyfforddiant**

Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod rhai gwelliannau wedi eu gwneud mewn perthynas â goruchwyliaethau ac arfarniadau staff; fodd bynnag, roedd rhai aelodau o staff yn dal angen goruchwyliaeth ac arfarniad blynyddol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n nodi'r ffordd y mae'n bwriadu sicrhau bod yr aelodau staff i gyd yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol.

## **Gofyniad**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod goruchwyliaeth reolaidd yn cael ei chyflawni gan yr aelodau staff er budd eu datblygiad proffesiynol.**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr aelodau staff i gyd yn cael arfarniad blynyddol o fewn yr amserlen ofynnol.**

## **Llywodraethu**

Canfuwyd yn yr arolygiad blaenorol fod y darparwr cofrestredig wedi cychwyn trefniant gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i anfon cleifion priodol i Phoenix House ar leoliadau 'argyfwng' tymor byr. Bwriad y trefniant hwn oedd cynorthwyo wrth roi gwasanaeth preswyl i drigolion Powys yn hytrach na bod yn rhaid i'r cleifion fynd i ysbyty y tu allan i sir Powys.

Canfuwyd unwaith eto yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd cytundeb wedi ei ddogfennu'n ffurfiol wedi ei gadarnhau rhwng y darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mai dim ond contract drafft oedd ar gael er gwaethaf y ffaith bod y cytundeb yn weithredol. Pwysleisiwyd ei bod yn hanfodol i'r darparwr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lofnodi contract ar gyfer eu cytundeb.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod y darparwr cofrestredig wedi dangos ei fod wedi ymdrechu i gael cytundeb ffurfiol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn perthynas â derbyn cleifion i'r ysbyty mewn argyfwng. Mae'n gyfrifoldeb ar y ddwy ochr i sicrhau bod cytundeb ffurfiol wedi ei ddogfennu ar waith.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad i AGIC mewn perthynas â'r contract hwn a'r camau y mae'n eu gweithredu er mwyn sicrhau bod contract o gytundeb dilys a chyfreithiol rwymol yn cael ei lofnodi rhwng y ddwy ochr ar gyfer lleoliadau argyfwng tymor byr.

### **Gofyniad**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lofnodi contract ar gyfer y cytundeb i ddarparu gwelyau ar gyfer argyfwng yn Phoenix House.**



## *Cymhwysiad y Ddeddf Iechyd Meddwl*

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom gofnodion saith o gleifion a chanfod eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddilys mewn perthynas â phapurau cadw'r claf. Roedd dogfennaeth caniatâd i adael Adran 17 wedi ei diwygio ers ein harolygiad blaenorol i gynnwys man i'r cleifion ei lofnodi i ddangos eu bod wedi derbyn copi o'u caniatâd i adael a man ychwanegol i ddangos bod copi wedi ei ddarparu. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau nawr bod yr elfennau ychwanegol hyn yn cael eu cwblhau'n llwyr ar gyfer cleifion perthnasol.

## *Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl*

Roedd yr holl gofnodion papur ar gyfer cleifion a welwyd yn ystod ein harolygiad yn cael eu storio'n ddiogel. Canfuwyd fod pedwar lleoliad electronig gwahanol ar gyfer storio gwybodaeth cleifion. Mae hyn, ar brydiau, yn creu anawsterau wrth geisio dod o hyd i wybodaeth benodol am gleifion. Byddai hyn yn arbennig o anodd i nyrs asiantaeth newydd. Rhaid i'r darparwr cofrestredig edrych ar y ffordd y rheolir y gwaith o storio gwybodaeth electronig a darparu cynllun gweithredu o welliannau i'w cyflawni er mwyn sicrhau bod modd i aelodau staff gyrraedd at holl wybodaeth y cleifion mewn modd amserol. Gwelwyd bod archwiliadau o'r ddogfennaeth ofal wedi eu cynnal gan y sefydliad.

Nid oedd dogfennaeth rhai cleifion yn cynnwys unrhyw anghenion cleifion a oedd heb eu diwallu, er i ni weld anghenion heb eu diwallu'n cael eu trafod a'u cofnodi yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae'n bwysig bod anghenion heb eu diwallu'n cael eu cofnodi'n glir yn nogfennaeth ofal y cleifion.

## **Gofyniad**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio cofnodion y cleifion i gyd er mwyn sicrhau bod unrhyw anghenion heb eu diwallu'n cael eu cofnodi'n ffurfiol yng nghofnodion y cleifion.**

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â phrif ganfyddiadau'r arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd ac yn lle y byddir yn rhoi sylw i'r canfyddiadau a nodwyd yn y lleoliad, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses iechyd meddwl/anabledd dysgu barhaus.

## Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr: Lighthouse Group

Ysbyty: Phoenix House

Dyddiad yr Arolygiad: 20 a 21 Mawrth 2017

Rheoliad	Sicrwydd y Mae ei Angen ar Unwaith	Camau Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Rheoliad 21(2) ac Atodlen 2 i Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	<p>Yn ystod ein harolygiad ar 20 – 21 Mawrth 2017, adolygodd AGIC arferion recriwtio staff. Canfuwyd mai ychydig iawn o wybodaeth a oedd gan y sefydliad ar aelod newydd o staff oedd yn ei gyfnod ymsefydlu yn yr ysbyty. Yn benodol, nid oedd geiradaon gan ganolwyr na gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallai hyn roi cleifion sy'n agored i niwed mewn perygl sylweddol.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau</p>	<p>Adolygwyd gweithdrefn y broses recriwtio a bydd yn cael ei gweithredu bob amser.</p> <p>Atalwyd ar unwaith yr aelod o staff yr amlygwyd nad oedd ganddo hebryngwr yn yr adeilad ar ddiwrnod yr arolygiad rhag mynychu ar ei ail ddiwrnod. Nid oes unrhyw aelodau o staff newydd eraill wedi dechrau ar eu swyddi heb bob un o'r gwiriadau cyn cyflogaeth megis gwiriad y</p>	Yvonne Williams	Cwblhawyd ar unwaith ar 20 Mawrth 2017

	<p>bod yr holl arferion recriwtio'n drwyadl a bod pob gofyniad rheoleiddiol, fel y'u nodir yn Rheoliad 21(2) ac Atodlen 2 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, yn cael eu cwblhau'n gyfan gwbl cyn i aelodau staff gael eu cyflogi a dechrau gweithio yn yr ysbyty.</p>	<p>Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dau eirda boddhaol.</p> <p>Bydd pob polisi a chanllaw recriwtio gael eu dilyn yn ôl cyfarwyddyd yr adran Adnoddau Dynol a byddwn yn cael cadarnhad o bob gwiriad cyn cyflogaeth cyn i unrhyw weithwyr newydd gychwyn er mwyn diogelu'r cleifion.</p> <p>Yn y dyfodol, ni fyddwn yn rhoi staff newydd mewn sifftiau cysgodi cyn cadarnhau bod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geir daon wedi eu derbyn.</p>	<p>Yvonne Williams</p>	
<p>Rheoliad 31(1)(d) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol</p>	<p>Yn ystod ein harolygiad, gofynasom am gael gweld dogfennau cysylltiedig â digwyddiadau a chwynion a dderbyniwyd gan yr ysbyty ynglŷn ag Ysbyty Phoenix House. Canfuwyd bod</p>	<p>Bydd cofnod cwynion yn cael ei ddefnyddio er mwyn dangos cynnydd mewn perthynas â phob cwyn, pan fyddant wedi cael eu cau, a'r broses o ymchwilio iddynt.</p>	<p>Yvonne Williams Karen Bell Rheolwr Cydymffurfio</p>	<p>Cwblhawyd</p>

<p>(Cymru) 2011</p>	<p>honiad wedi ei wneud gan glaf ynglŷn â dau aelod o staff. Dilynodd y sefydliad y weithdrefn gywir drwy atgyfeirio'r digwyddiad i dîm diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol Powys. Cafodd y ddau aelod o staff eu hatal dros dro o'u gwaith hefyd hyd nes i archwiliad llawn a chynhwysfawr gael ei gynnal.</p> <p>Canfuwyd nad oedd y sefydliad wedi hysbysu AGIC o'r digwyddiad hwn. Mae Rheoliad 31(1)(d) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid hysbysu'r awdurdod cofrestru (AGIC) o unrhyw honiad o gamymddwyn gan aelod o staff sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu niwed potensial i glaf.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r holl gwynion a digwyddiadau a sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu o unrhyw ddigwyddiadau fel ag y nodir yn Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.</p>	<p>Rhaid i bob cwyn gael ei sganio a'i storio'n electronig.</p> <p>Gwnaed hysbysiad i AGIC ar 18 Ionawr 2017 drwy e-bost Egress (e-bost diogel). Disgwylir adborth gan Gyngor Sir Powys gan eu harolygydd arweiniol LH. Mae'r rheolwr cofrestredig wedi mynd ar ôl yr ymchwilydd arweiniol ar gyfer yr argymhellion diogelu er mwyn dod â'r ymchwiliad i ben yn derfynol.</p>	<p>Yvonne Williams</p> <p>Yvonne Williams</p>	<p>Cwblhawyd ac e-bost dilynol wedi ei anfon ar 29.03.2017</p>
-------------------------	--	---	---	--

		Rydym wedi adolygu pob digwyddiad a chwyn a byddwn yn hysbysu AGIC wrth iddynt ddigwydd yn unol â'r Canllaw i Ddarparwyr Cofrestredig a Rheolwyr Cofrestredig (2015).		
<b>Rheoliad</b>	<b>Gofyniad</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
15 (1) (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddatblygu polisi rheoli clozapine cynhwysfawr.	Cwblhau'r polisi clozapine a oedd ar ffurf drafft.	Yvonne Williams Karen Bell	Cwblhawyd Polisi wedi ei atodi
15 (1) (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn derbyn ymgynghoriad iechyd corfforol blynyddol gan ymarferydd meddygol a bod y wybodaeth ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad ar gael.	Bydd pob claf yn cael sgrinio iechyd corfforol blynyddol (Rethink) ac mae offeryn Lester wedi ei gwblhau ar gyfer pob claf. Bydd cleifion preswyl yn cael sgrinio iechyd corfforol gan gydlynnydd iechyd corfforol mewn cysylltiad â meddygfa.	Yvonne Williams Jennifer Swift CSM	30 Gorffennaf 2017

20 (2) (a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod goruchwyliaeth reolaidd yn cael ei chynnal gan aelodau staff er budd eu datblygiad proffesiynol.	Mae pob aelod o staff wedi cael goruchwylwr ac wedi cael goruchwyliaeth chwarterol yn unol â'r polisi. Caiff y dangosydd cydymffurfio ei fonitro gan y brif swyddfa hefyd. Y cofnod goruchwyllo a gwerthuso i gael ei ddiweddarau pan fydd goruchwyliaeth wedi ei chwblhau.	Yvonne Williams Jennifer Swift CSM	30 Gorffennaf 2017 Gweithrediad a gwiriadau parhaus
20 (2) (a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr aelodau staff yn cael arfarniad blynyddol.	Mae pob aelod o staff wedi cael arfarnwr ar gyfer y flwyddyn ac wedi cael goruchwyliaeth flynyddol yn unol â'r polisi. Caiff y dangosydd cydymffurfio ei fonitro gan y brif swyddfa hefyd. Y cofnod goruchwyllo ac arfarnu i gael ei ddiweddarau pan fo'r arfarniad wedi ei gwblhau.	Yvonne Williams Jennifer Swift CSM	30 Gorffennaf 2017 Gwiriadau a gweithrediad parhaus
9 (1) (a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lofnodi contract mewn perthynas â'r cytundeb i ddarparu gwelyau mewn argyfwng yn	Wedi cyfathrebu â Phowys ac yn aros am gyfarfod gyda hwy. Yr unigolyn cyfrifol yn cyfathrebu â Phowys. Cyfathrebiad diwethaf yn Ebrill 2017.	Julian Ball Yvonne Williams	30 Gorffennaf 2017

	Phoenix House.			
19 (1) (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf sydd angen electrocardiograff yn derbyn y prawf mewn modd amserol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig nodi sut y bydd y maes ymarfer hwn yn cael sylw er mwyn sicrhau bod gofynion iechyd corfforol cleifion yn cael eu monitro'n foddhaol.	Caiff unrhyw gleifion newydd pob un o'r gwiriadau iechyd corfforol. Caiff unrhyw newid i feddyginiaeth cleifion ei wirio cyn i'r feddyginiaeth gael ei rhagnodi. Mae'r holl gleifion wedi eu cofrestru â Meddygfa Trefaldwyn ar gyfer gwiriadau iechyd corfforol. Rydym yn edrych ar wahanol ffordd o reoli a chynnal profion electrocardiograff cleifion a bydd hon yn cael ei gweithredu o fewn tri mis.	Yvonne Williams Jennifer Swift	30 Gorffennaf 2017
19 (1) (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu ar gyfer pob claf sydd â gofyniad iechyd corfforol.	Mae pob claf sydd â phryder iechyd corfforol neu angen iechyd corfforol a nodwyd wedi cael cynllun gofal ar gyfer yr angen. Pan fo unrhyw angen corfforol nad oes modd ei ddiwallu yn Phoenix House, byddwn yn cysylltu â'r feddygfa i gael cymorth arbenigol.	Yvonne Williams Jennifer Swift	30 Gorffennaf 2017 ac adolygiadau parhaus
15 (1) (a) (c)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio cofnodion pob claf i sicrhau	Mae Phoenix House yn defnyddio'r model Cynllun Gofal a Thriniaeth sydd yn y Mesur Iechyd Meddwl,		



	<p>bod unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi'n ffurfiol yng nghofnodion y claf.</p>	<p>gan ddefnyddio'r wyth maes. Caiff unrhyw beth nad yw'n berthnasol i'r wyth maes ei atgyfeirio at wasanaeth a fydd yn diwallu angen y claf, e.e. byddwn yn atgyfeirio claf sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau i wasanaeth lleol sy'n cynorthwyo cleifion i ddeall a rheoli sylweddau.</p>	<p>Jennifer Swift CSM Yvonne Williams</p>	<p>30 Gorffennaf 2017 ac yn barhaus</p>
--	---	--	---	---